



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymateb i adroddiad thematig Estyn o arfer da yn y dyniaethau

OGL

ISBN digidol 978 1 78859 307 6
© Hawlfraint y Goron Hydref 2017
WG27868

Teitl yr adroddiad: Arfer da yn y dyniaethau

Manylion yr adroddiad

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn mewn ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog at Estyn ar gyfer 2016-17. Mae'r adroddiad hwn yn trafod safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth yn y dyniaethau yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4 mewn ysgolion lle nodwyd arferion da. Bydd yn ddefnyddiol ar gyfer pob ysgol, gan gynnwys yr Ysgolion Arloesi a'r arbenigwyr sy'n datblygu'r cwricwlwm newydd.

Crynodeb o'r prif gasgliadau

Mae'r canfyddiadau'n gadarnhaol ar y cyfan, gydag astudiaethau achos yn dangos arferion gorau.

Crynodeb o nodweddion arfer da yn y dyniaethau:

- Mae arweinwyr yn deall ac yn cefnogi lle'r dyniaethau mewn cwricwlwm eang a chytbwys.
- Mae athrawon yn cyfuno datblygiad gwybodaeth am y pwnc a sgiliau'r disgyblion yn fedrus. Maent yn datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion mewn cyd-destun perthnasol.
- Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o adnoddau ysgogol, perthnasol a chyfredol yn eu gwersi.
- Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o ardal yr ysgol.
- Mae disgyblion yn mwynhau'r amrywiaeth eang o weithgareddau a ddarperir gan athrawon a'r cyfle i ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Ymddengys mai'r prif faterion yw'r canlynol:

- Y trefniadau pontio o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3.
- Ychydig iawn o safoni a chymedroli sy'n digwydd yng ngwaith disgyblion yn y dyniaethau yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.
- Mae'r pwyslais cryf ar dechnegau arholi a deilliannau yng nghyfnod allweddol 4 yn cyfyngu ar ystod y profiadau dysgu/cyfoethogi a roddir.
- Ni chaiff athrawon cynradd ddigon o arweiniad ar addysgu'r dyniaethau yn ystod hyfforddiant cychwynnol i athrawon.
- Mae'r cyfleoedd sydd ar gael i ymestyn datblygiad proffesiynol athrawon yn y dyniaethau, heblaw cyrsiau sy'n gysylltiedig ag

arholiadau, yn gyfyngedig.

Argymhelliad 1

Dylai ysgolion:

Sicrhau cydbwysedd rhwng datblygu sgiliau disgyblion a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gynnwys pwnc

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r argymhelliad hwn, sy'n cyd-fynd ag egwyddorion y cwricwlwm newydd. Bydd pob Maes Dysgu a Phrofiad yn cael statws cyfartal er mwyn sicrhau cwricwlwm eang a chytbwys, a byddant yn canolbwyntio ar helpu dysgwyr i adeiladu corff o wybodaeth a datblygu'r sgiliau i gysylltu a chymhwyso'r wybodaeth honno i gyd-destunau gwahanol.

Mae'r cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn ymyrraeth ddwys sydd wedi bod ar waith ers 2015. Mae'n defnyddio sgiliau ymarferwyr ac athrawon creadigol sy'n cydweithio i ddatblygu ffyrdd creadigol o ddysgu ac addysgu. Mae'r cynllun hwn wedi helpu mwy na thraean o ysgolion yng Nghymru i weithio tuag at wireddu gweledigaeth yr Athro Donaldson, sef bod athrawon yn datblygu arferion arloesol ac yn cydweithio ar draws ffiniau pwnc.

Bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod *Atodiad 2: Cwestiynau i ysgolion eu hystyried fel rhan o'u hunanarfarniad* yn yr adroddiad yn cael ei rannu gyda'r consortia rhanbarthol ac yn uniongyrchol gydag ysgolion drwy gylchlythyr Dysg. Mae'r rhestr gyfeirio gynhwysfawr hon yn ymdrin â'r holl argymhellion ar gyfer ysgolion.

Argymhelliad 2

Dylai ysgolion:

Sicrhau bod profiadau dysgu disgyblion yn y dyniaethau yn amrywiol, diddorol, dilyniadol a heriol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4

Bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod rhaglenni cymorth ar gyfer y cwricwlwm yn cael eu hyrwyddo i ysgolion drwy Dysg er mwyn eu helpu i gynllunio a darparu profiadau dysgu diddorol.

Un o'r cyfleoedd cyfoethogi sydd ar gael i ysgolion yw'r grant gwerth hyd at £1,000 y gall ysgolion wneud cais amdano i ddatblygu prosiectau creadigol ac arloesol i goffau'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae grantiau 'Ewch i Weld' ar gael hefyd (hyd at £1,000) er mwyn i ysgolion allu rhoi cyfle i ddisgyblion **ymwneud â'r celfyddydau a gweithgareddau**

diwylliannol fel rhan arferol o'u profiad dysgu ehangach. Ceir astudiaethau achos yn yr Hafan Dysgu Creadigol ar wefan Hwb, sy'n cynnwys enghreifftiau fel disgyblion ym Mlwyddyn 6 a ymwelodd â Chanolfan Eifftaidd Prifysgol Abertawe fel rhan o'u gwaith ar yr Eifftiaid ar y pryd. Cafodd y disgyblion hyn gyfle i drin a thrafod arteffactau, archwilio'r arddangosfa, gwisgo gwisgoedd a chreu mymi, a chymryd rhan yn nifer o weithgareddau eraill yn ymwneud â'r pwnc. Hyd yn hyn mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi defnyddio'r cyllid i gefnogi profiadau dysgu ar gyfer disgyblion yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Fodd bynnag, gall disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 hefyd elwa ar brofiadau celfyddydol a diwylliannol o ansawdd uchel y tu allan i'r dosbarth a'r ysgol.

Argymhelliad 3

Dylai ysgolion:

Monitro'r cynnydd a wna disgyblion yn y dyniaethau yn agosach

Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno ei bod yn bwysig bod yn ymwybodol o sut mae dysgwyr yn datblygu ym mhob pwnc. Prif ffocws y trefniadau asesu yn y dyfodol fydd sicrhau bod dysgwyr yn deall sut maent yn perfformio. Y dysgwyr sy'n cael adborth o ansawdd uchel, sy'n deall lle maent arni yn eu dysgu, lle mae angen iddynt fynd nesaf, ac yn hollbwysig, sut i gyrraedd yno, yw'r rhai mwyaf tebygol o wneud y gwelliant mwyaf.

Pan fydd y trefniadau asesu newydd yn cael eu rhoi ar waith, bydd pwyslais o'r newydd ar Asesu ar gyfer Dysgu fel nodwedd naturiol ac annatod o ddysgu ac addysgu. Yn ogystal, byddant yn cefnu ar gasglu gwybodaeth am berfformiad plant a phobl ifanc fesul ysgol at ddibenion atebolrwydd.

Mae ymchwil o bob cwr o'r byd wedi dangos bod asesu ar gyfer dysgu yn cynnig ffordd effeithiol i ni gyflawni ein nod o gael system addysg sy'n perfformio'n dda ac sy'n rhoi'r gallu i ddysgwyr fod yn ddysgwyr gydol oes.

Argymhelliad 4

Dylai ysgolion:

Gwerthuso'r cwricwlwm ar gyfer y dyniaethau i baratoi ar gyfer datblygu a gweithredu'r maes dysgu a phrofiad newydd.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r arfer da presennol mewn hanes a daearyddiaeth. Bydd Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn y cwricwlwm newydd i Gymru'n cynnwys y ddwy ddisgyblaeth, ynghyd ag addysg grefyddol, busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru'n

cefnogi'r argymhelliad bod ysgolion yn gwerthuso eu cwricwlwm ar gyfer y dyniaethau er mwyn paratoi ar gyfer datblygu a gweithredu'r Maes Dysgu a Phrofiad newydd. Yn ogystal â nodi arfer da o ran cynllunio, addysgu ac asesu'r cwricwlwm, mae'r adroddiad hwn hefyd yn ystyried elfennau fel llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, y dimensiwn Cymreig a safbwyntiau rhyngwladol, a phrofiadau cyfoethogi yng nghyd-destun hanes a daearyddiaeth. Caiff yr agweddau trawsgwricwlaidd hyn eu hymgorffori ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad a byddant yn helpu i ddatblygu'r pedwar diben sydd wrth wraidd y cwricwlwm newydd i Gymru.

Argymhelliad 5

Dylai ysgolion:

Sefydlu rhwydweithiau lleol o arfer da i rannu adnoddau ac arbenigedd, gan gynnwys gwneud defnydd gwell o ardal yr ysgol

Mae llwyfan dysgu Hwb yn enghraifft o offeryn y gall ysgolion ei ddefnyddio i greu rhwydweithiau lleol i rannu adnoddau ac arferion gorau. Fodd bynnag, yn ogystal â sicrhau arferion da, mae'n bwysig hefyd bod pob ymarferydd yn gallu datblygu'r sgiliau mewn addysgeg ac arweinyddiaeth i fodloni gofynion y cwricwlwm newydd. Mae'r dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol a'r cwricwlwm newydd yn cael eu datblygu ar y cyd er mwyn sicrhau bod y gofynion dysgu proffesiynol sydd angen eu bodloni ar unwaith a'r gofynion sy'n dod i'r amlwg yn cael eu cyflawni mewn ffordd strwythuredig sydd wedi'i chynllunio.

Argymhellion 6 ac 7

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia'r awdurdodau lleol:

Ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol gwell ar gyfer athrawon y dyniaethau

Darparu mwy o gymorth i ysgolion werthuso eu cwricwlwm a chynllunio ar gyfer datblygu maes dysgu a phrofiad y dyniaethau

Datblygwyd dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol sy'n cynnwys model o ddysgu proffesiynol. Cynigir ystod eang o gymorth ar gyfer dysgu proffesiynol yn y cwricwlwm cyfredol drwy'r consortia, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, a cheir rhaglen gymorth ar gyfer anghenion dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd. Mae'r rhaglenni cymorth presennol yn cyfrannu at ddatblygu arferion addysgeg ar draws y cwricwlwm.

Wrth i'r Ysgolion Arloesi sy'n gweithio ar y Meysydd Dysgu a Phrofiad ddatblygu eu syniadau, bydd arloeswyr ym maes dysgu proffesiynol yn cael eu cynnwys yn y chwe gweithgor er mwyn sicrhau bod gofynion dysgu proffesiynol yn cael eu nodi'n gynnar.

Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cymru:

Sicrhau bod cyrsiau addysg gychwynnol i athrawon yn galluogi athrawon newydd, gan gynnwys athrawon cynradd, i feithrin y sgiliau angenrheidiol i addysgu'r dyniaethau yn llwyddiannus ac ymateb i'r Cwricwlwm newydd i Gymru

Derbyn. Grymuswyd Cyngor y Gweithlu Addysg i achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) unigol drwy sefydlu'r Bwrdd Achredu Addysg Athrawon. Bydd hyn yn fodd i roi ystyriaeth fwy penodol i raglenni AGA am y tro cyntaf, gan ddarparu'r trylwyredd a'r cymorth angenrheidiol i sicrhau y caiff pob rhaglen AGA ei hadolygu'n drwyadl ac yn briodol yn y dyfodol.

Ym mis Mehefin, cyhoeddwyd tri phenodiad i'r Bwrdd hwn. Cafodd yr Athro John Furlong, Athro Emeritws mewn Addysg yn Adran Addysg Prifysgol Rhydychen, ei benodi'n Gadeirydd; a chafodd yr Athro Olwen Mcnamara, Athro mewn Addysg Athrawon ym Mhrifysgol Manceinion, a Dr Aine Lawlor, cyn-Brif Swyddog Gweithredol Cyngor Addysgu Iwerddon, eu penodi'n Ddirprwy Gadeiryddion.

Mae'r penodiadau hyn, sydd â hygrededd ac o safon uchel, yn hanfodol i sicrhau bod trefniadau yn cael eu gwneud ar gyfer proses achredu o ansawdd. Yn y dyfodol, bydd angen i bob rhaglen AGA, boed yn rhaglen newydd neu'n rhaglen sydd eisoes yn bodoli, gael ei hachredu gan y Bwrdd. Mater i'r Bwrdd, gan gynnwys cynrychiolwyr o Estyn, fydd penderfynu a yw rhaglen arfaethedig yn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon ac yn ymdrin â phob mater yn y ddogfen meini prawf. Wrth wneud hynny, bydd y Bwrdd yn ceisio sicrhau bod unrhyw raglen yn heriol, â hygrededd ac yn briodol yn broffesiynol.

Manylion cyhoeddi

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 6 Hydref 2017 a gellir ei weld ar wefan Estyn:
www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig